**Gorchymyn Prynu Gorfodol National Grid Gas Plc (Prosiect Rhwydwaith Nwy Gorllewinol) 2022: Hysbysiad Cyhoeddus o Ymchwiliad**

**HYSBYSIAD O DDYDDIAD A LLEOLIAD YR YMCHWILIAD:**

**Lleoliad: i'w gynnal yn rhithwir**[1]

**Dyddiad: 9 Mai 2023 – dechrau am 10am**

Cyflwynodd National Grid Gas Plc[2] Orchymyn Prynu Gorfodol, o dan adran 9 ac atodlen 3 Deddf Nwy 1986, mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu rhan 9km newydd o biblinell nwy rhwng Wormington (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon), rhan 2km newydd o biblinell nwy yn Churchover (Swydd Warwig), gwaith i hwyluso uwchraddio gwasgedd y biblinell nwy bresennol rhwng Felindre (Abertawe) ac Aberllynfi (Powys) a Chil-ffriw (Castell-nedd Port Talbot)[3] a gwaith cysylltiedig ar osodiadau presennol ar ben y tir i fodloni'r galw cynyddol i lifo nwy ar y system nwy genedlaethol.

Hysbysir bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, o dan Reol (3)3 Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2007 (OS 2007 Rhif 3617) fel y'u diwygiwyd gan Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Diwygiadau Amrywiol a Chyfathrebiadau Electronig) 2018 (OS 2018 Rhif 248), wedi cyfarwyddo Arolygydd o'r Arolygiaeth Gynllunio – Mr Patrick Hanna – i gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus ynglŷn â'r gorchymyn uchod.

Os caiff ei gadarnhau, bydd y gorchymyn yn caniatáu i National Grid Transmission Plc brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd mewn tir sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu rhan 9km newydd o biblinell nwy rhwng Wormington (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon), rhan 2km newydd o biblinell nwy yn Churchover (Swydd Warwig), gwaith i hwyluso uwchraddio gwasgedd y biblinell nwy bresennol rhwng Felindre (Abertawe) ac Aberllynfi (Powys) a Chil-ffriw (Castell-nedd Port Talbot)[4] a gwaith cysylltiedig ar osodiadau presennol ar ben y tir i fodloni'r galw cynyddol i lifo nwy ar y system nwy genedlaethol.

Mae copïau electronig o'r gorchymyn, map y gorchymyn a'r Datganiad o'r Rhesymau, y Datganiad Achos a dogfennau craidd y cyfeirir atynt ynddo ar gael i'w gweld ar-lein yn: www.nationalgas.com/wgn

Disgrifiad o Dir y Gorchymyn:

Tir amaethyddol yn bennaf sy'n cynnwys tir âr, glaswelltir a rhywfaint o dir pori parhaol a rhywfaint o isbridd priffordd rhwng Wormington, Swydd Gaerloyw a Honeybourne, Swydd Gaerwrangon; yn Churchover, Swydd Warwig; a rhwng Felindre, Abertawe, Aberllynfi, Powys a Chil-ffriw, Castell-nedd Port Talbot.

**John McKenna**
**Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net**
**19 April 2023**

---

[1] Os hoffech fynychu'r ymchwiliad rhithwir, cysylltwch â Stephen Waterfield o'r Arolygiaeth Gynllunio trwy anfon neges e-bost at stephen.waterfield@planninginspectorate.gov.uk.

[2] Ar 31 Ionawr 2023, cwblhawyd gwerthu cyfranddaliadau yn National Grid Gas Plc. O ystyried mai gwerthiant cyfranddaliadau oedd y trafodyn, yr endid cyfreithiol sy'n cynnwys National Grid Gas Plc yw'r endid sy'n trawsgludo nwy o hyd ac nid oedd rhif y cwmni wedi newid. Fodd bynnag, ailenwyd y cwmni'n "National Gas Transmission Plc", yn effeithiol o 6 Chwefror 2023.

[3] Mae National Gas Transmission Plc wedi gofyn i'r Gorchymyn gael ei addasu, os caiff ei gadarnhau, i ddileu'r tir yng Nghil-ffriw, nad oes ei angen mwyach ar gyfer y prosiect.

[4] Mae National Gas Transmission Plc wedi gofyn i'r Gorchymyn gael ei addasu, os caiff ei gadarnhau, i ddileu'r tir yng Nghil-ffriw, nad oes ei angen mwyach ar gyfer y prosiect.